**CYFARWYDDIADOL**

**Canllaw i Ddefnyddwyr**
**Cyflwyniad**

Ewch i'r brif sgrin fynediad, y dudalen Groeso, er mwyn cofrestru ar Rhannu Siwrne i Gaerdydd.

Ar ôl i chi gofrestru'ch manylion, mewngofnodwch i Rhannu Siwrne i Gaerdydd drwy ddefnyddio'ch enw defnyddiwr (eich cyfeiriad e-bost llawn, os gwnaethoch nodi un) a'r cyfrinair a gawsoch gan y system wrth gofrestru. Byddwch wedyn yn cael eich cyfeirio i'ch hafan ar wefan Rhannu Siwrne i Gaerdydd.

**O'ch hafan ar wefan Rhannu Siwrne i Gaerdydd, gallwch:**

- chwilio am rai a allai rannu car neu siwrne â chi
- sefydlu grŵp rhannu ceir neu siwrne newydd
- newid eich manylion personol a manylion eich cyflogaeth
- newid eich dewisiadau teithio
- newid eich cyfrinair
- gadael Rhannu Siwrne i Gaerdydd.

Rhan o beth yw hwn ydych chi'n meddwl? Pam?

Beth sy'n dangos mai cyfarwyddiadau sydd yma?

Pam ydych chi'n meddwl y byddai angen y math yma o dudalen?

Pa mor glir yw'r cyfarwyddiadau? Oes modd eu gwneud yn gliriach yn eich barn chi?

Pa rai yw'r cysyllteiriau?

Beth ydych chi'n ei feddwl yw ystyr 'mewngofnodwch', 'hafan', 'sefydlu', a 'cyflogaeth'?